COFNODION CYFARFOD Y CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD O BELL DRWY TIMAU MICROSOFT DYDD GWENER, 4 MAWRTH 2022, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd G John – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Edwards | G Hopkins | AA Pucella | R Turner |
| E Venables | JE Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

SE Baldwin, G Cox a/ac JC Spanswick

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nimi Chandrasena | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |
| Andrew Rees | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Eilish Thomas | Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol a Chau |

101. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

102. DERBYN Y COFNODION

PENDERFYNWYD: Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 03.09.2021 fel rhai cywir.

103. CYFLEUSTERAU LLYS BLODAU

Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad a oedd yn cynnig cyngor i'r cydbwyllgor ynghylch y gwaith cynlluniedig o ddarparu estyniad yn y Cyfleusterau Llys Blodau. Bwriad y Cyfleuster yw gwella brofiad y galarwyr a'r ffordd mae cynulleidfaoedd yn symud o amgylch y safle, drwy gynnig cyfleuster mwy wedi'i orchuddio ar yr ardal wair nad yw'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd, sydd yn cyd-fynd â statws adeiladau cofrestredig yr amlosgfa ac ethos dylunio'r gwaith pensaernïol gwreiddiol.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd 14 Mehefin 2019, cyflwynwyd y Cydbwyllgor i'r pensaer, Jonathan Adams, Cyn-lywydd Cymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru, ac a fu ynghlwm ag amrywiaeth o brosiectau uchelgeisiol gwahanol, yn cynnwys Canolfan Mileniwm Caerdydd ym mae Caerdydd. Cafodd y Cydbwyllgor gyflwyniad manwl ynghylch y dyluniad a oedd ganddo dan sylw ar gyfer y gwaith o godi estyniad. Rhoddodd y Cydbwyllgor gymeradwyaeth a chaniatâd i swyddogion fynd ati i wneud cais am ganiatâd cynllunio, a gwahodd tendrau ar gyfer y gwaith adeiladu, yn dibynnu ar gymeradwyaeth pellach. Bydd yr arian ar gyfer y prosiect yn cael ei ddarparu o gronfeydd wrth gefn yr Amlosgfa, ac amcangyfrifir y bydd yn costio £540,000. Yng nghyfarfod y Cydbwyllgor 6 Mawrth 2020, ail-gymeradwywyd yr arian yng nghyllideb 2020/21. Yng nghyfarfod 4 Medi 2020, cafodd y Cydbwyllgor ddiweddariad a oedd yn nodi bod y gwaith wedi bod yn mynd rhagddo, er gwaethaf y pandemig. Yn gyntaf, mewn perthynas â chymeradwyaeth statudol, roedd caniatâd cynllunio wedi ei roi gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Gorffennaf 2020, ac roedd caniatâd adeilad rhestredig wedi ei roi gan Lywodraeth Cymru ar 25 Awst 2020. Yn ail, mewn perthynas â dyluniad y gwaith adeiladu, roedd y pensaer, Jonathan Adams, wedi bod yn gweithio i

berffeithio'r elfennau strwythurol megis cromenni'r to a'r pileri cefnogi unionsyth, er mwyn lleihau risgiau wrth adeiladu a rhoi sicrwydd o ran costau cyn dechrau'r contract. Yn drydydd, mewn perthynas â'r prosiectau, gofynion iechyd a diogelwch ar y safle a set sgiliau'r tîm dylunio.

Yng nghyfarfod 5 Mawrth 2020, cafodd y Cydbwyllgor wybod fod y pandemig wedi effeithio ar yr amserlen. Cymeradwyodd y Cydbwyllgor swm o arian gwerth £550,000 ar gyfer cyllideb 2021/22, er mwyn galluogi'r pensaer i barhau i ddatblygu'r cyfnod caffael, a pharatoi tendrau. Mae'r pandemig wedi cael effaith niweidiol ar yr amserlen caffael.

Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth y byddai tendrau'n cael eu derbyn drwy *eTender Wales* ym mis Mawrth 2022, yn unol â chontract a rheolau gweithdrefnol ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bwriedir dechrau gwaith adeiladu yn ystod yr haf eleni. Mae'r gost o £550,000 a amcangyfrifwyd ar gyfer y prosiect wedi cael ei gynnwys yn y cynllun busnes a'r adroddiad ar ffioedd sydd wedi'i atodi heddiw, yn ogystal â'r gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23 fel y nodwyd yn adroddiad Trysorydd cysylltiedig y cwmni.

Dywedodd aelod o'r Cydbwyllgor ei fod yn cymeradwyo'r cynnig a dywedodd ei fod yn falch gyda'r cynnydd a wnaed gyda syniad y cyflwynodd i'r Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth.

Gofynnodd aelod o'r Cydbwyllgor a oedd unrhyw amcanestyniad ffurfiol ar gyfer y cynnydd mewn costau oherwydd y cynnydd mewn prisiau o fewn y diwydiant adeiladu. Soniodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth
bod cynnydd rhesymol mewn costau i'w ddisgwyl, a bod y pensaer yn deall bod costau ddeunyddiau a gwaith adeiladu wedi codi'n sylweddol ar draws y diwydiant yn ystod y 6 mis diwethaf, ers diwedd y cyfnod cyfyngiadau symud. Mae prinder o bopeth. Mae'n anodd rhagweld beth fydd cost gwaith newydd. Pe byddai cost y prosiect wedi mynd y tu hwnt i'r amcanestyniad, credir na fyddai wedi codi'n ormodol. Byddai'n rhaid aros am ganlyniadau'r tendr, er mwyn rhoi syniad clir o oblygiadau ariannol y prosiect. Os yw'r tendr llwyddiannus o fewn y gyllideb, byddai'r tendr hwnnw'n cael ei ddyfarnu'n briodol, ond pe byddai costau'n mynd y tu hwnt i'r gyllideb, byddai adroddiad arall yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor. Dywedodd efallai y byddai angen cyfarfod brys gyda'r Cydbwyllgor os byddai'r tendrau'n mynd y tu hwnt i'r gyllideb. Er hyn, dywedodd wrth y Cydbwyllgor y byddai cronfa wrth gefn yr Amlosgfa'n gallu ymdopi â chostau adeiladu uwch os byddai hynny'n ofynnol, gan y rhagwelir y bydd balans cronedig y cronfeydd wrth gefn erbyn mis Mawrth 2023 yn 2.8 miliwn. Pe bai hyn yn wir, byddai Joanna yn dod yn ôl at y pwyllgor i drafod hyn.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylai'r Cyd-bwyllgor:-

- Mae'r pŵer i dderbyn y tendr sydd fwyaf manteisiol yn economaidd yn nwylo'r Clerc a'r Swyddog Technegol, yn unol â chontract a rheolau gweithdrefnol ariannol Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Os bydd y tendr yn mynd y tu hwnt i'r gyllideb a neilltuwyd, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor i roi cymeradwyaeth terfynol ar gyfer tendrau.

- Mae'r pŵer i gymeradwyo telerau terfynol y contract, mewn ymgynghoriad â Phrif Swyddog Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, y Gwasanaethau Rheoleiddio a Chyfreithiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol yn nwylo'r Clerc a'r Swyddog Technegol, ac felly, byddant

yn trefnu bod y contract yn cael ei weithredu ar ran y Cydbwyllgor yn unol â’r argymhelliad yn 9.1.

104. CYNLLUN BUSNES A FFIOEDD YR AMLOSGFA

Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad ynghylch y cynllun busnes a'r rhaglen wariant ar gyfer 2022-2023, sy'n cynnwys ffioedd a chostau arfaethedig.

Dywedodd wrth y Cydbwyllgor y byddai cynllun busnes yn cael ei gyflwyno'n flynyddol i'r Cyd-bwyllgor ei gymeradwyo, sy'n cynnwys amcanion y gwasanaeth a phrosiectau cynnal a chadw a gwella arfaethedig, i wella a chynnal tir ac adeiladau'r amlosgfa ar gyfer y cyfnod sydd i ddod. Tynnodd sylw at y dyfarniadau a'r cyflawniadau, yn enwedig derbyn Gwobr Green Flag eto yn 2021, a bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn hunangynhaliol yn ariannol. Trafododd y strwythur staffio, a oedd yn cynnwys dau dechnegydd dros dro yn yr amlosgfa fydd yn cael eu cyflogi ym mis Mai 2020, ac a fydd yn helpu gyda gwytnwch yn ystod pandemig COVID-19. Nodwyd yr oriau busnes, y mathau o goffadwriaeth a ddarperir, y ffyrdd gwahanol y mae'r amlosgfa'n marchnata ei hun ac yn cyfathrebu gyda'r bobl sy'n defnyddio ei wasanaeth. Tynnodd y Cynllun Busnes sylw at y ffyrdd gwahanol y mae'r amlosgfa'n parhau i fod yn gynaliadwy'n amgylcheddol, a'r prif gyflawniadau yn ystod y deng mlynedd diwethaf, gan drafod y rhai diweddaraf yn ystod 2021. Roedd goleuadau allanol wedi cael eu gosod, a chafodd cyfleusterau cerddoriaeth digidol mewn dau gapel eu hadnewyddu, gan gynnwys gosod sgriniau teyrngedau gweledol.

Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod dangosyddion perfformiad yn cael eu dangos ar gyfer y pum mlynedd diwethaf sy'n berthnasol i foddhad defnyddwyr, ac mae eu canlyniadau'n cael eu tynnu o'r holiaduron am y gwasanaeth sy'n cael eu hanfon at bobl sy'n defnyddio'r amlosgfa. Y targed yw ceisio cyflawni lefelau boddhad 100% yn seiliedig ar sgôr 'da' neu 'wych', a bod y rhain yn parhau ar 100% ar gyfer y targed a osodwyd ar gyfer 2022/23.

Soniodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth am ystadegau blynyddol amlosgiadau ar gyfer blwyddyn calendr 2021, oedd yn 1887.
Cyfanswm nifer yr amlosgiadau ar gyfer 2020 oedd 1933, o gymharu â 1887 yn 2021, oedd yn ostyngiad o 46 amlosgiad yn 2021. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o 308 yn nifer yr amlosgiadau o’i gymharu â 2019 o ganlyniad i'r pandemig. Felly, er y gostyngiad o 46 amlosgiad, mae'n parhau i ddangos effaith y pandemig ar nifer y marwolaethau.

Siaradodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth am y gwaith cynlluniedig a wnaed yn 2021-22, sy'n ymwneud â lleihau mercwri a gwella systemau cyfrifiadurol cyfryngau a cherddoriaeth yn y Capeli. Cafodd y gwaith o osod goleuadau allanol ar y tir, a gafodd ei ohirio oherwydd y pandemig y flwyddyn flaenorol, ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2021, ac roedd yn is na'r gyllideb wreiddiol a neilltuwyd. Erbyn hyn, mae'r estyniad i'r llys blodau, a gafodd ei ohirio oherwydd y pandemig, wedi cyrraedd y cam caffael ar gyfer cyfnod adeiladu'r prosiect. Mae'r cyfanswm a amcangyfrifir ar gyfer y gyllideb wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2022/23. O ran taliadau lleihau mercwri i Cameo yn dilyn gosod gwaith lleihau mercwri ym mis Ebrill 2016, roedd hyn yn galluogi'r amlosgfa i fasnachu â Cameo i gynhyrchu incwm blynyddol o £5006 a dderbyniwyd o'r flwyddyn fasnachu 2020/21.

Disgwyliwyd am gadarnhad ar swm yr incwm posibl a ddisgwylir yn 2021/22. Roedd disgwyl gweld gostyngiad bychan yn yr incwm blynyddol hwn yn y dyfodol wrth i fwy o amlosgfeydd osod offer lleihau mercwri. Mae prif ffocws amcanion gwasanaeth 2022/23 wedi'u crynhoi, ac yn ogystal ag adeiladu estyniad y llys flodau, bydd y Capel Coffau yn cael ei adnewyddu yn gyntaf, i gynnwys system wresogi o dan y llawr. Mae swm y

gyllideb amcangyfrifedig wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2022/23. Yn ail, mae gwelliannau i'r llinellau gweld ger giât allanfa'r Amlosgfa er mwyn gwella diogelwch. Mae'r gost a amcangyfrifir wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2022/23. Yn drydydd, mae gosod llwybrau a mannau coffa ychwanegol i wella diogelwch a mynediad i gerddwyr hefyd wedi’i gynnwys yng nghyllideb 2022/23.

Yn ogystal â'r datblygiadau gwasanaeth arfaethedig hyn, mae eiddo wrth gefn. Mae'r rhain wedi cael eu cynnwys yng nghyllideb refeniw'r amlosgfa, i ymdrin â gwaith, atgyweiriadau cyffredinol a chynnal a chadw nas cynlluniwyd. Bwriad y gwariant dros ben yw adeiladu cronfeydd wrth gefn ar gyfer adnewyddu’r amlosgyddion a’r peiriannau ategol yn y dyfodol ymhen tua 11 mlynedd yn ogystal ag ariannu’r holl welliannau i wasanaethau yn y dyfodol. Drwy gynnal y cronfeydd wrth gefn, gellir sicrhau bod gan yr amlosgfa ddigon o arian tymor hir, a'i fod yn barod am ddigwyddiad posib all godi.

Rhoddodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth grynodeb o gostau rhagamcanol y gwaith arfaethedig. Dywedwyd y byddai rhagor o fanylion yn cael eu darparu
yn adroddiad y Trysorydd. Rhoddwyd fwy o fanylder ynghylch amserlenni a chyfrifoldebau swyddogion ar gyfer y prosiect dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf a'r flwyddyn bresennol, ac ar gyfer yr amcanion newydd a adroddwyd ar gyfer 2022/23.

Gwnaeth Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth gymharu ffioedd amlosgi a godwyd gan Amlosgfeydd yn ne Cymru, a thrafododd cynnydd posibl yn y ffi i amlosgi oedolyn yn ystod yr wythnos, yn unol â chwyddiant o £707.50 i £745.70. Dywedodd wrth y Cyd-bwyllgor fod gwella safon y systemau cerddoriaeth a chyfryngau yn y ddau gapel wedi galluogi'r amlosgfa i gynnig opsiynau clyweledol ychwanegol. Bydd y ffioedd sydd wedi'u cynnig yn talu costau cynhyrchu, a gallant gyfrannu at gynnal a chadw offer. Byddai'r ffioedd newydd yn cymryd lle'r ffioedd clyweledol presennol sydd ar waith ar gyfer recordiadau gwasanaeth a gwe-ddarllediadau.

Eglurodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod galw cynyddol wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf am amlosgi uniongyrchol lle nad oes gwasanaeth angladd a phresenoldeb galarwyr. Arch yn cael ei gludo i'r amlosgfa ar ddechrau'r diwrnod gwaith. Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth y byddai cyflwyno ffi amlosgi uniongyrchol isel o ran cost yn amlosgfa Llangrallo yn rhoi mwy o ddewis ac argymhellodd y dylid cyflwyno ffi o £550 ar gyfer 2022/23, gan gynnwys y dystysgrif amlosgi.

Dywedodd wrth y Cyd-bwyllgor fod yr holl amrywiadau i wariant ac incwm wedi’u hamlinellu yn y cynllun busnes lefel gwasanaeth a’u bod wedi’u hymgorffori yn adroddiad y Trysorydd.

Gofynnodd aelod o'r Cyd-bwyllgor am eglurhad ynghylch y term 'defnyddwyr', sef pobl sy'n cynnal angladd go iawn. Gofynnodd yr aelod hefyd a oedd yr holiadur ar gael ar y wefan er mwyn i bobl allu ei gwblhau'n ddiweddarach pan fyddant yn teimlo'n fwy parod i wneud hynny. Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth wrth y Cyd-bwyllgor bod yr holiadur ar gyfer yr un sy'n defnyddio'r gwasanaeth, sef aelod teuluol sydd wedi trefnu'r angladd, yr ymgeisydd cyfreithiol am amlosgiad sydd yn cwblhau ac yn cyflwyno'r holl waith papur statudol, a pherthynas agosaf yr ymadawedig. Ar ôl yr angladd, maen nhw'n cael gwybodaeth gan yr amlosgfa, yn ogystal â llythyr eglurhaol yn cynnwys nodyn o gydymdeimlad a manylion cyswllt ar gyfer yr amlosgfa, rhag ofn y bydd eu hangen arnynt. Maen nhw hefyd yn cael manylion ynghylch mannau gorffwys a chofebau mae'r amlosgfa'n eu cynnig, holiadur am y gwasanaeth i'w gwblhau ganddynt ac amlen ragdaledig er mwyn ei ddychwelyd. Nid oes yn rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r holiadur. Gallant ei anwybyddu os ydynt yn teimlo ei fod yn amhriodol, neu gymryd eu hamser i'w gwblhau. Nid oes amser penodol ar gyfer ei ddychwelyd. Ar

wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fe welir holiadur gan y Cyngor sy'n gofyn am adroddiadau ar berfformiad yr holl wasanaethau a gynigwyd gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Gall unrhyw un ei gwblhau, a byddai'n cael ei anfon ymlaen i'r amlosgfa ar wahân. Mae holiadur yr Amlosgfa wedi'i anelu'n bennaf at deulu a threfnwyr angladdau, er mwyn casglu argraffiadau a theimladau ynghylch y gwasanaeth maen nhw wedi'i gael ar gyfer yr angladd maen nhw wedi'i drefnu.

Gofynnodd aelod o'r Cyd-bwyllgor a oedd gan yr Amlosgfa ddata'n ymwneud ag adborth gan bobl nad oedd wedi defnyddio ei wasanaethau. Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod tîm cyfan yr amlosgfa'n gweithio'n uniongyrchol o'r amlosgfa ei hun a'i fod mewn cyswllt dyddiol â'r teuluoedd sy'n mynd yno. Felly, mae'r tîm yn dueddol o gael cysylltiadau mwy personol gyda'r teuluoedd hyn, ac mae unrhyw broblem sy'n codi ei ben yn cael ei adfer yn swyddfa'r amlosgfa ar y safle. Mae'r tîm yn dueddol o dderbyn ymholiadau dros y ffôn neu mewn e-byst gan ddefnyddwyr sy'n teimlo nad ydynt eisiau siarad wyneb yn wyneb, gweler yr enghreifftiau, sy'n wahanol i deuluoedd sydd wedi trafod problem gyda staff yr amlosgfa ac adfer y broblem honno ar y safle.

Gofynnodd aelod o'r Cyd-bwyllgor a gedwir cofnodion ynghylch cydweithiadau, neu a yw'n fwy anffurfiol. Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth nad oes cofnodion ar gyfer cydweithiadau fel hyn yn cael eu cadw oherwydd maent yn rhan o'r gwaith o reoli'r amlosgfa'n ddyddiol. Mae'r holiadur yn ffordd fwy ffurfiol o gael ymateb prydlon gan deulu sydd newydd orffen y broses o drefnu angladd.

Gofynnodd aelod o'r Cyd-bwyllgor am eglurhad ynghylch y gwasanaeth amlosgi uniongyrchol, sy'n costio £550. Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth wrth y Cyd-bwyllgor fod hwn yn wasanaeth ffurfiol newydd ar gyfer Llangrallo, ac mae'n rhywbeth sydd wedi bod yn digwydd yn anffurfiol ers rhai blynyddoedd, lle mae cyfarwyddwr angladdau wedi cyrraedd gydag arch ac nad oes angladd wedi'i drefnu yn y Capel. Mae ffioedd llawn wedi cael eu codi ar gyfer y gwasanaeth yn y gorffennol, ond mae amlosgi uniongyrchol wedi dod yn fwyfwy poblogaidd yn ddiwedd, a byddai teuluoedd yn hoffi ei gael fel dewis ychwanegol. Gofynnodd aelod o'r Cyd-bwyllgor a yw amlosgi uniongyrchol yn rhatach gan nad oes angen defnyddio'r holl gyfleusterau. Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth wrth y Cyd-bwyllgor ei fod yn caniatáu i drefnwyr angladdau ddod â'r ymadawedig ar ddechrau'r dydd fel nad yw'n amharu ar rediad gwasanaethau angladd yn y Capel. Roedd trefnwyr angladdau dal ynghlwm oherwydd roedd angen cludo'r arch i'r amlosgfa. Eto, bydd popeth yn cael ei wneud yn yr un ffordd â gwasanaeth angladd, hynny ydi, byddai'r arch yn cyrraedd y capel, ac yn cael ei gollwng i'r amlosgfa ar yr elor, gan gynnal yr un lefel o urddas a pharch. Rhoddir ystyriaeth i'r ffaith mai dim ond swm penodol o arian fydd gan rai teuluoedd, ac mae amlosgi uniongyrchol yn opsiwn llawer rhatach, sy'n eu galluogi nhw i gynnal angladd yn eu ffordd eu hunain yn rhywle arall heb y costau ychwanegol.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyd-bwyllgor:

- Gymeradwyo'r cynllun busnes lefel gwasanaeth ar gyfer 2022/23.
- Cymeradwyo'r ffi amlosgi ar gyfer 2022/23 o £745.70, a chynnydd cyffredinol yn yr holl ffioedd o 5.4%.
- Cymeradwyo'r ffioedd clyweledol ychwanegol ar gyfer 2022/23 fel y nodir yn 4.4
- Cymeradwywyd y ffi amlosgi uniongyrchol ar gyfer 2022/23 o £550.

105. RHAGLEN GYFARFODYDD 2022-23

Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad i'w gymeradwyo gan Aelodau ar gyfer y rhaglen gyfarfodydd a gynigiwyd ar gyfer y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2022/23. Dywedodd fod y Memorandwm Cytundeb yn nodi y dylai'r cydbwyllgor gynnal o leiaf dau gyfarfod y flwyddyn. Y cyntaf o'r rhain fydd y cyfarfod cyffredinol blynyddol, lle byddai'r cadeirydd a'r is-gadeirydd am y flwyddyn i ddod yn cael eu hethol.

Dywedodd y gallai'r cyfarfod a gynhelir ar 10 Mehefin gael ei newid oherwydd etholiadau'r Cyngor ac a fydd Aelodau sy'n cynrychioli'r Cyd-Bwyllgor wedi'u dewis mewn pryd ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Efallai y bydd angen cyfarfod brys ynghylch estyniad y Llys Blodau hefyd, os bydd yn mynd y tu hwnt i gostau'r gyllideb.

Cafodd y cyfarfodydd eu trefnu fel a ganlynol:-

Dydd Gwener 10 Mehefin 2022 - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Dydd Gwener 9 Medi 2022
Dydd Gwener 3 Mawrth 2023

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfarfodydd ar gyfer 2022/23, fel yr amlinellir yn Adroddiad y Swyddog.

106. PERFFORMIAD ARIANNOL 2021-22 A CHYLLIDEB REFENIW A GYNIGIR 2022-23

Adroddodd y Rheolwr Cyllid ar y perfformiad ariannol rhagamcanol ar gyfer yr amlosgfa ar gyfer 2021/2022 ac i gael cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor ar gyfer y gyllideb arfaethedig a ffioedd a thaliadau ar gyfer 2022/23 a nodir yn Atodiad Un.

Dywedodd fod cyllideb refeniw 2021/22 wedi'i chymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2021 ac amlinellodd gymhariaeth o'r gyllideb yn erbyn gwariant rhagamcanol ar 31 Ionawr 2022. Pan osodwyd y gyllideb, rhagwelwyd diffyg yn y gyllideb o £451,000, yr alldro rhagamcanol ar ddiwedd Ionawr yw £148,000 o arian dros ben.

Adroddodd y Rheolwr Cyllid ar y prif amrywiannau sef gorwariant o £48,000 ar weithwyr oherwydd bod dau dechnegydd amlosgfa ychwanegol yn cael eu cyflogi am y flwyddyn ariannol lawn, wedi ei wrthbwyso gan tanwariant o £2,000 ar gostau gweithwyr eraill, tanwariant o £78,000 ar eiddo, a achoswyd oherwydd tanwariant ar waith cynnal a chadw cynlluniedig o £75,000 a mân tanwariant ar drethi busnes a chynnal a chadw tiroedd, gorwariant o £26,000 ar gyflenwadau, gwasanaethau a thrafnidiaeth, gyda'r rhan fwyaf yn debygol o gynyddu gwariant ar eitemau i'w hailwerthu a thanwariant o £495,000 ar waith cynnal a chadw cyfalaf a oedd wedi'i drefnu.
Oherwydd bod y prosiect wedi'i ohirio o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws, gwelwyd tanwariant ar estyniad y llys blodau. Mae'r tanwariant ar oleuadau ar y safle'n ymwneud â thaliad cadw i'w wneud yn 2022/23. Mae'r ddau brosiect wedi'u cynnwys yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23.

Mae incwm yn uwch na'r disgwyl o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr amlosgiadau a derbyniadau i gronfa caledi COVID-19 Llywodraeth Cymru.
Roedd cyllideb arfaethedig 2022/23 yn dangos diffyg o £232,000. Mae holl gyllidebau unigolion nad ydynt yn weithwyr ar gyfer 2021/22 wedi'u hadolygu ac mae unrhyw addasiadau angenrheidiol wedi'u gwneud i fodloni gwariant disgwyliedig ar gyfer 2022/23. Mae cyllidebau gweithwyr wedi'u haddasu i adlewyrchu cynnydd cyflog a chynnydd mewn Yswiriant Gwladol oherwydd yr ardoll gofal cymdeithasol lle bo'n berthnasol, er nad oes lwfans wedi'i wneud ar gyfer codiad cyflog.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor am y gofynion gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer cynnal a chadw, gyda phedwar cynllun y manylwyd arnynt yn y gyllideb o £665,000 ac a delir o'r gyllideb costau cyllido cyfalaf. Roedd cyllidebau incwm wedi'u paratoi gan gymryd y bydd cynnydd cyffredinol o 5.4% yn y ffioedd, ar sail y lefelau presennol o weithgarwch a'r tabl ffioedd arfaethedig ar gyfer 2022/23 a nodwyd. Dangosir yr effaith ar falans cronedig y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2022/23, gyda balans cronedig o £2.815 miliwn. Ystyriwyd bod balans cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2022 yn ddigonol er mwyn cynnal ac amddiffyn y gwasanaeth, o ystyried galw annisgwyl neu argyfyngau.

Ni fydd gwariant cyfalaf ar gyfer 2022-2023 yn gofyn am unrhyw dâl na chyfraniad ar fenthyciad gan awdurdodau cyfansoddol a bydd yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o gyfraniadau refeniw a'r gwarged cronedig o'r flwyddyn flaenorol.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Cyd-bwyllgor:-

- Nodi'r perfformiad ariannol a ragfynegir ar gyfer 2021/22.
- Cadarnhau a chymeradwyo'r gyllideb refeniw i'w mabwysiadu yn 2022/23
- Cymeradwyo'r cynnydd yn y ffioedd a chostau o 1 Ebrill 2022, fel y nodir yn Atodiad Un.

107. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Diolchodd y Cynghorydd Julia Williams i'r Cyd-bwyllgor, gan nodi ei bod wedi mwynhau ei gwaith o fewn y Pwyllgor, a'i bod hi'n rhoi'r gorau i'w swydd. Roedd y Cynghorwyr Turner, Venables ac Edwards hefyd yn rhoi'r gorau i'w gwaith a diolchwyd i'r swyddogion am y gefnogaeth a roddwyd iddynt tra'r oeddent ar y Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyd-bwyllgor am eu gwasanaeth, a dymunodd yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:57